## Organig

Unrhyw beth sydd wedi ei wneud, neu sy'n deillio o ddeunydd byw



## Anorganig

Unrhyw beth nad yw'n cynnwys neu'n deillio o ddeunydd byw



| | | |
|---|---|---|
| **Biodiraddadwy** | Sylwedd neu wrthrych y gall bacteria neu organebau byw eraill eu dadelfennu |  |
| **Diraddiadwy** | Deunydd a fydd yn dilyn proses ddirywio neu ddadelfennu gan weithredoedd grymoedd naturiol (aer, goleuni, dŵr) neu drwy ychwanegu cemegion penodol. |  |

## Dadelfennu

Pydru, neu wneud i rywbeth bydru, dadfeilio neu achosi rhywbeth i ddadfeilio.



## Ailgylchu

Trin neu brosesu (deunyddiau gwastraff neu rai a ddefnyddiwyd) er mwyn eu hailddefnyddio mewn ffordd addas.



## Taflu sbwriel

Gwneud (lle neu ardal) yn flêr gyda sbwriel neu nifer fawr o wrthrychau wedi eu gadael o gwmpas.



## Tipio anghyfreithlon

Dympio gwastraff yn anghyfreithlon.



**Bioblastigion**

Math o blastigion sy'n deillio o sylweddau biolegol yn hytrach na phetrolewm.



**Petrogemegion**

Sylwedd cemegol a ddeilliwyd o betrolewm neu nwy naturiol.



## Tomen sbwriel anferth y Cefnfor Tawel

Tomen enfawr o sbwriel sy'n arnofio yn y Cefnfor Tawel. Adnabyddus hefyd fel fortecs sbwriel a chawl o blastigion gan fod 90% ohono'n blastig.

**MYTH: Ceir ynys enfawr o sbwriel solid yn arnofio yn y Cefnfor Tawel.**

**FFAITH: Mae miliynau o ddarnau o blastig mân a microsgopig yn arnofio dros ardal 5000 km sgwâr o'r Cefnfor Tawel. Mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol dros y 40 mlynedd diwethaf.**



## Adnoddau naturiol

Cyfoeth naturiol gwlad sy'n cynnwys tir, coedwigoedd a dŵr.

Unrhyw beth y gall pobl ei ddefnyddio sy'n deillio o natur.

